**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**15.06.2023 @7pm**
**NEUADD PANTYFEDWEN, PONTRHYDFENDIGAID**

1. **CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
   Croesawodd y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones, bawb i'r Cyfarfod.

2. **YN BRESENNOL**
   Cyng. Mel Briant
   Cyng. Ifan Lloyd Davies
   Cyngh. Gareth Wyn Edwards
   Cyng Alun Price Jones
   Cyng. Angharad Jones
   Cyng Richard Jones
   Cyng Gareth Owen
   Cyng. Elgan Williams
   Eleri Thomas (Clerc)

3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
   Ymddiheurodd y Cyng. Ieuan Davies, y Cyngh. Non Jones a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCyrH) John Evans am eu hanallu i fynychu'r Cyfarfod.

4. **MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
   Dim Adroddiad.

5. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL A BUDDIANT SY'N RHAGFARNU**
   Dim wedi'i ddatgan.

6. **CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 18fed o Fai 2023**
   **CYNIGIWYD** (Y Cyngh. Richard Jones), **EILIWYD** (Y Cyngh. Alun Price Jones) a **PHENDERFYNWYD** bod Cofnodion Cyfarfod y 18fed o Fai' n gywir.
   Arwyddwydd gan y Cadeirydd.

7. **MATERION YN CODI**

   **7.1 Ardal Chwarae Pantyfedwen:** Cynhaliwyd Cyfarfod Safle ar ddydd Mawrth 4 Ebrill am 10.30am dan gyfarwyddyd Stefano Antoniazzi (SA), Cyngor Sir Ceredigion, y Cyng Gareth Owen a Mrs Clare Hughes. Roedd angen matiau newydd. Bydd angen cyllido cyfatebol wrth geisio am grant. Gallai grantiau fod ar gael i gwrdd â'r arian cyfatebol ee am grant o £10,000, gallai arian cyfatebol o £10,000 gael ei dalu gan grant pellach. SA i geisio gwybodaeth.

   Roedd y Cyngh. Gareth Owen wedi cysylltu â 2 ddarparwr Arwyneb Ardaloedd Chwarae.
   **RTC Safety Surfaces Ltd**
   **Opsiwn 1:** RTC i gael gwared ar hen deils a chyfnewid am ddefnydd arllwys gwlyb du: Amcanbris: £11,919.00 heb TAW
   **Opsiwn 2:** Defnyddio Arllwys Gwlyb Du: Teils presennol i'w symud a'u gwaredu gan eraill: Amcanbris: £8,217 heb gynnwys TAW.
   **DCM Surfaces:** Arllwys Gwlyb: £8,819 heb gynnwys TAW.
   **Gellir ceisio dyfynbris pellach.**

**Arolygiad Chwarae ROSPA 2023:** cynhelir ym mis Mehefin £75 + TAW.

**Yr arwydd parthed gwybodaeth i dwristiaid:** Adroddwyd bod y Cyngh. Elgan Williams wedi ymwneud â'r dasg.

**7.2** **Grant y Loteri Genedlaethol:** rhoddir sylw pellach i amodau'r Grant i gwrdd â rhai prosiectau yn y Pentref.

**7.3** **Diffibriliwr ger Tafarn y Teifi, Ffair Rhos**
**Cyfanswm y diffibrilwyr o fewn Ffair Rhos a Bont yw 4 bellach**
Megis: Tafarn y Teifi: Ffair Rhos ( y Cyngor Cymuned wedi darparu'r bocs)
Neuadd Pantyfedwen, Y Bont
Siop y Bentref, Bont
Abaty Ystrad Fflur. (y Cyngor Cymuned wedi darparu'r bocs)
Roedd Pennaeth Ysgol Bont wedi cytuno i'r diffibriliwr sy'n weddill i'w leoli ar safle'r ysgol (o bosib o fewn y maes parcio)

**7.4** **Llifogydd Afon Teifi yn ardal y Llew Coch:** mae angen tocio coed yn yr ardal.

**7.5** **Baneri: Ffair Rhos:** Cyng. Ieuan Davies i'w prynu ar ran y Cyngor Cymuned. Dim gwybodaeth pellach yn ystod y cyfarfod hwn.

**7.6** **Dwy sedd wag achlysurol Cyngor Cymuned Ystrad Fflur:**
Roedd dwy sedd wag yn y swydd o Gynghorydd, Cyngor Cymuned Ystrad Fflur, "Rhybudd Cyfethol" wedi'i arddangos tan 15.06.2023. Derbyniwyd dau fynegiant o ddiddordeb sef y Cynghorydd Ifan Lloyd Davies a Mr Gareth Wyn Edwards. Gadawodd y ddau yr ystafell yn ystod y drafodaeth. **CYTUNWYD** cyfethol y ddau unigolyn a hysbysu Cyngor Sir Ceredigion. Ymrwymodd y ddau i'r Cod Ymddygiad a'r Datganiad Derbyn Swydd.

**7.7** **Adolygiad o Drefniadau Cymunedol Ceredigion:** bydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn adolygu trefniadau cymunedol Ceredigion gyda'r bwriad o ystyried a llunio cynigion ar gyfer trefniadau yn y dyfodol. Gwahoddwyd sylwadau. Ymgynghoriad 8 wythnos 9 Mai 2023- 3 Gorffennaf 2023. **CYTUNWYD** nodi bod Cyngor Cymuned Ystrad Fflur yn dymuno i Ward Cyngor Cymuned Ystrad Fflur (sy'n cynnwys Caron Uwch Clawdd a Gwnnws Uchaf) aros yr un fath.
Yn ystod adeg Cyngor Dyfed roedd Ward Gwnnws Uchaf a Ward Caron Uwch Clawd arwahan. Pan ffurfiwyd Cyngor Sir Ceredigion unwyd y ddwy ward.

**7.8** **Diwrnod Agored: Coed y Bont: 16.06.2023**, 10am-7pm Neuadd Bentref Pantyfedwen; gwahoddiad i holl Gynghorwyr Cymuned.

**7.9** **Mae Strategaeth Tai Lleol Ceredigion wedi cael ei hadolygu.** O ganlyniad i'r gwaith hwnnw roedd y Strategaeth Tai arfaethedig wedi bod drwy'r broses fewnol ac o'r herwydd, roedd CS Ceredigion bellach mewn sefyllfa i'w rhannu fel rhan o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus. Housing Strategy | Have Your Say Ceredigion
Sylwadau ar y Strategaeth Tai i'w cyflwyno erbyn dydd Gwener 30 Mehefin 2023.
Y Cynghorwyr i anfon sylwadau i'r Clerc erbyn 30 Mehefin 2023.

**7.10** **Goleuadau Stryd wrth brif bont y pentref:** Adroddwyd bod 6 mis wedi mynd heibio ers i'r ddamwain ddigwydd, ar y bont. Ystyriodd yr aelodau y ffordd ymlaen, llinellau melyn dwbl posibl, llinellau traffig parhaol, arwydd 10 milltir / awr. CYTUNWYD i'r Cynghorydd Ifan Lloyd Davies drafod y mater gyda Swyddog Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion, i archwilio gwahanol opsiynau.

8. GOHEBIAETH

**8.1** **Bwrdd Rhanddeiliaid Cylch Caron:** Cofnodion Cyfarfod 2 Mai 2023: er gwybodaeth.

**8.2** **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:** O’r 17eg Medi 2023, bydd y rhan fwyaf o gyfyngiadau 30mya ar draws Cymru yn newid i 20mya. Pan welwch oleuadau stryd, dylech gymryd yn ganiataol mai’r cyfyngiad cyflymdra yw 20mya, oni bai eich bod yn gweld arwyddion sy’n dweud yn wahanol.
Mae’r rhan fwyaf o strydoedd sy’n cael eu heffeithio mewn ardaloedd preswyl neu brysur lle y mae pobl yn cerdded a seiclo.
Bydd *Gan Bwyll,* yr Heddlu a phartneriaid yn parhau i addysgu a gweithio gyda chymunedau, a gorfodi’r cyfyngiadau cyflymdra 20mya, er mwyn gwneud ffyrdd yn fwy diogel i bob un.

**8.3** **CS Ceredigion:** Ynghlwm dau adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau 14.06.23:-

- Y newyddion diweddaraf am faterion Panel Dyfarnu Cymru
- Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

**8.4** **Rheolau Sefydlog Model – Diwygiedig (fel y derbyniwyd gan Un Llais Cymru):** Penderfynwyd clustnodi sylw i'r ddogfen hon yn y dyfodol.

**8.5** **Gohebieth Pellach:** er gwybodaeth yn unig. Roedd llawer o negeseuon e-bost wedi eu hanfon ymlaen at Gynghorwyr rhwng cyfarfodydd, yn electronig.

**9. CYNLLUNIO**

**DIM**

**10. CYLLID**

**10.1** **Polisi Tref a Chymuned Zurich £555.33.** Dyddiad adnewyddu: 1 Mehefin 2023.

**10.2** **Cyflog y Clerc Mai** 2023 £193.83

**10.3** **Cyflog y Clerc:** wedi ei adolygu. Gadawodd y Clerc yr ystafell ar ôl tynnu sylw at Argymhellion Cyflog CGCLL - Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol, (i'w hadolygu'n flynyddol) ac amlinellaid o'r llwyth gwaith. Cytunwyd i godiad cyflog. Bydd y gyfradd newydd o £11/awr @5awr yr wythnos, yn berthnasol o Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Mai 2023.

**10.**4 **Cyfrifon:** Cyngor Cymuned Ystrad Fflur 2022-23: wedi eu dosbarthu i aelodau. (Hefyd ar gael ar y safle ar y we). Bydd Mrs Enid Hughes yn ymwneud â’r Archwiliad Mewnol yn ystod yr wythnosau nesaf. Yna bydd y Clerc yn cyflwyno dogfennau priodol i'r Archwilwyr Allanol, Archwilio Cymru. Byddant hefyd ar gael i'r cyhoedd.

**11. EITEMAU AR GYFER FB: DIM**

**12. UNRHYW FATER ARALL**

**12.1** **CYTUNWYD** llongyfarch CFfI Tregaron am sicrhau'r lle cyntaf yn Rali CFfI Ceredigion 2023.

**12.2** **CYTUNWYD** diolch i Mrs Clare Hughes am lanhau llochesi bysiau ac am gasglu sbwriel o fewn yr ardal, yn ddiweddar.

**12.3** **Mynegodd Aelodau** eu dymuniadau gorau i Erin Harvey, a oedd yn sâl a hefyd i'w phlant, Harvey ac Alex, a'i phartner Shaun.

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.20pm.**
**Dyddiad y Cyfarfod/ydd nesaf: Nos Iau 20fed o Orffennaf 2023 at 7pm.**

**Arwyddwyd/Dyddiad ------------------------------------------------------------------------------------------**